# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 13 MEHEFIN 2016 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL:** Bu M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C Anderson | U C Clay | A C S Colburn |
| D W Cole | S E Crouch | N J Davies |
| E W Fitzgerald | T J Hennegan | J W Jones |
| E J King | D J Lewis | P M Meara |
| G Owens | | |

| Aelod Cyfetholedig | Aelod Cyfetholedig | Aelod Cyfetholedig |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | C A Holley | P Hood-Williams |

**Officer(s)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |

6 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd G J Tanner.

7 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd N J Davies - personol - Cofnod Rhif 13 – wedi'i gyflogi gan Graham Evans & Partners LLP sy'n gysylltiedig â materion amddiffyn plant/cyfreithiol.

Y Cynghorydd P M Meara - personol - Cofnodion Rhifau 12 a 13 - Aelod o'r Panel Maethu.

8 **GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

9 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 9 Mai 2016 a 19 Mai 2016 fel cofnodion cywir.

## 10 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 11 RÔL PWYLLGOR Y RHAGLEN GRAFFU.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad a oedd yn rhoi disgrifiad o drefniadau amlinellu a chraffu'r cyngor a chylch gorchwyl Pwyllgor y Rhaglen Graffu.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 12 SESIWN HOLI AELOD Y CABINET: AELOD Y CABINET DROS WASANAETHAU I BLANT A PHOBL IFANC. (Y CYNGHORYDD CHRISTINE RICHARDS).

Cyflwynodd y Cynghorydd Richards sylwadau agoriadol am ei phortffolio Cabinet, cyn cymryd cwestiynau gan y pwyllgor.

Siaradodd am ei chyswllt rheolaidd â chraffu trwy Banel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a bu'n canmol gwaith gwerthfawr y panel gan ddweud ei fod yn gwneud cyfraniad sylweddol i wella'r gwasanaeth. Bu hefyd yn siarad am ei chyfarfod â'r Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid sy'n cwmpasu sawl agwedd ar ei phortffolio, gan gynnwys y gyllideb.

Bu Aelod y Cabinet yn siarad am y ffaith bod gweithio mewn partneriaeth yn un o'r prif faterion a heriau sydd o'n blaenau a'i fod yn faes i'w wella er gwaethaf absenoldeb tebygol ad-drefniad sylweddol llywodraeth leol.

Roedd Dave Howes, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol, hefyd yn bresennol a bu'n cynorthwyo'r pwyllgor gyda'u cwestiynau yn ôl yr angen.

Arweiniodd y sesiwn holi i drafodaeth ynghylch y pynciau canlynol:

- Ailsefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc;
- Gwaith arweinwyr ieuenctid a lefel y gwasanaeth ar draws Abertawe;
- Cymorth ariannol i dimau chwaraeon cymunedol pobl ifanc;
- Rôl Aelod y Cabinet â'i gwaith fel rhan o Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Cynllun Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc - y broses o fonitro cynnydd i wella canlyniadau;
- Cynnydd mewn perthynas â hawliau plant;
- Y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid rhanbarthol ac argaeledd adroddiadau ar berfformiad;
- Ymyrryd yn gynnar ac a gafwyd unrhyw welliannau i ganlyniadau troseddwyr ifanc ers cyflwyno arfer adferol;
- Dilyniant a gwerthusiad y cynllun Dechrau'n Deg ers iddo symud i'r Portffolio Addysg;
- Y gyllideb ar gyfer y portffolio Plant a Phobl Ifanc;
- Lles plant sy'n cael eu haddysgu gartref;
- Diogelu/Amddiffyn Plant a materion hyfforddiant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Richards a Dave Howes am ddod i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan fyfyrio ar y drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

13 **ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELU CORFFORAETHOL 2014/15 AC ADENDWM AR GYFER 2015/16.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol amlinelliad o waith y Grŵp Llywio Corfforaethol i Ddiogelu Pobl drwy ddarparu'r adroddiad blynyddol am y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015 gydag adendwm diwygiedig i adlewyrchu cynnydd hyd at 31 Mawrth 2016.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr Adroddiad Diogelu Blynyddol, adendwm a Chynllun Gweithredu.

Darparwyd gwybodaeth gefndir i sefydlu Grŵp Llywio Corfforaethol i Ddiogelu Pobl. Cydnabyddodd y pwyllgor fod Diogelu Pobl Ddiamddiffyn yn un o 5 blaenoriaeth cynllun corfforaethol y cyngor, ac efallai mai dyma'r un pwysicaf.

Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2014/15 yn cynrychioli blwyddyn gyntaf o waith y Grŵp Llywio. Cafodd y pwyllgor wybod am y gwaith a wnaed dros y 18 mis diwethaf i hyrwyddo'r syniad bod pawb yn gyfrifol am ddiogelu, a chyflawniadau eraill, gan gynnwys:

- Nodi arweinwyr diogelu clir ar draws holl wasanaethau'r cyngor
- darparu hyfforddiant ar-lein ac yn bersonol
- datblygu fframwaith perfformiad i ddarparu sicrwydd digonol fod y systemau'n gweithio'n effeithiol
- digwyddiad hyfforddi ar gam-fanteisio’n rhywiol ar blant

Gofynnodd y pwyllgor am gynnydd mewn perthynas ag effeithiolrwydd trefniadau gyda phartneriaid, gan gynnwys contractwyr, a'u cynnwys mewn safonau/materion diogelu. Hysbyswyd y pwyllgor fod hwn yn faes i'w wella o hyd ond bod camau gweithredu wedi'u nodi i estyn cyfrifoldebau ar draws sefydliadau allanol sy'n gwneud gwaith i'r cyngor ac i sicrhau fod ganddynt lefel o ddealltwriaeth o ddiogelu. Roedd y pwyllgor yn awyddus i weld cynnydd yn y maes hwn yn ogystal ag amserlenni.

Hefyd roedd gan y pwyllgor ddiddordeb yng ngwaith y Grŵp Llywio Corfforaethol a sut mae'n ategu gwaith Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin, Bwrdd Gweithredol Diogelu'r Cyhoedd a grwpiau gweithredol lleol.

Nododd y pwyllgor fod ymagweddau yn Abertawe yn denu sylw mewn mannau eraill.

**PENDERFYNWYD** y dylai Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol nodi barn y pwyllgor ar yr adroddiad.

14 **RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y rhaglen waith arfaethedig, gan gynnwys cynllun ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol, a oedd yn dangos y pynciau a fyddai'n cael eu harchwilio gan graffu trwy baneli a gweithgorau amrywiol. Mae'n cynnwys y gwaith y mae angen ei drosglwyddo, naill ai oherwydd ei bwysigrwydd neu am nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau, yn ogystal â phynciau newydd arfaethedig.

Gwahoddwyd y pwyllgor i nodi 2 bwnc ymchwiliad newydd, a hyd at 5 pwnc gweithgor newydd, gan ystyried adborth o'r gynhadledd flynyddol i gynllunio gwaith craffu a gynhaliwyd ar 12 Mai. Trafodwyd nifer o opsiynau. Nodwyd sawl mater arall yn y gynhadledd, fel yr amlinellwyd yn Atodiad 7 yr adroddiad, a allai gael eu trafod gan baneli perfformiad perthnasol. Amlygodd y Cadeirydd yr Adolygiadau Comisiynu amrywiol a fyddai'n mynd trwy broses graffu cyn penderfynu yn ystod y flwyddyn.

Teimlwyd bod angen gwneud gwaith y paneli perfformiad yn fwy amlwg ymhlith aelodau'r pwyllgor a chytunwyd y dylai llythyrau yn y dyfodol at/gan y paneli perfformiad gael eu cylchredeg i aelodau'r pwyllgor er gwybodaeth.

Nododd y pwyllgor fod ymateb Aelod y Cabinet i Ymchwiliad Craffu Llywodraethu Ysgolion yn cael ei adrodd i gyfarfod y Cabinet ar 16 Mehefin. Mynegwyd pryder ynghylch yr ymateb arfaethedig a arweiniodd at drafodaeth am y broses a gwelliannau posib e.e. galluogi deialog rhwng Cynullwyr/Aelodau'r Panel Ymchwilio ac Aelodau'r Cabinet o ran eu hymateb cyn unrhyw benderfyniad.

Bu aelodau'r pwyllgor hefyd yn trafod y broses graffu cyn penderfynu mewn perthynas â'r materion a godwyd yn y cyfarfod ym mis Mai. Nododd y Cadeirydd ei bod wedi cwrdd â'r Cyng. Clive Lloyd, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad, i rannu pryderon ac i drafod gwelliannau posib. Mae nodyn ysgrifenedig yn cael ei lunio ar gyfer Aelod y Cabinet, i ystyried ymagweddau, e.e. adroddiadau ar gael cyn cyhoeddi agenda'r Cabinet, trafodaeth rhwng y Cadeirydd/Cynullydd ac Aelod y Cabinet cyn cyfarfod y Cabinet, gohirio adroddiadau'r Cabinet lle y bo'n bosib etc.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol**:**

1) Y dylid derbyn y rhaglen waith craffu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

2) Y dylid sefydlu'r Paneli Ymchwilio canlynol:

   a. Partneriaethau a Chydweithio;
   b. Parodrwydd ar gyfer yr Ysgol.

3) Y dylid sefydlu'r gweithgorau canlynol:

   a. Cynllunio a Threfniadau A.106;
   b. Ffyrdd a Chynnal a Chadw Priffyrdd;
   c. Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol;
   ch. Cynhwysiad Digidol;
   d. Baw Cŵn.

4) Y dylid gofyn i'r cyngor ddiwygio Rheolau Gweithdrefnol Craffu er mwyn cynnwys trafodaeth rhwng Aelodau'r Cabinet a chynullwyr/aelodau'r Panel Ymchwilio cyn cyhoeddi adroddiadau ymateb Aelodau'r Cabinet i'r Cabinet; ac

5) Y dylid e-bostio llythyrau ac ymatebion rhwng y Paneli Perfformiad ac Aelodau'r Cabinet at aelodau Pwyllgor y Rhaglen Graffu er gwybodaeth.

## 15 AELODAETH PANELI CRAFFU A GWEITHGORAU.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i Aelodaeth Paneli/Gweithgorau Craffu.

**PENDERFYNWYD** y dylid diwygio aelodaeth y Panel Perfformiad Ysgolion fel a ganlyn:

1) Ychwanegu'r Cynghorwyr Cyril Anderson a Susan Jones.
2) Tynnu'r Cynghorwyr Robert Smith a Cheryl Philpott.

## 16 LLYTHYRAU CRAFFU.

Adroddodd y Cadeirydd y Cofnod Llythyrau Craffu a chyfeiriodd at yr ohebiaeth ddiweddar rhwng aelodau'r Tîm Craffu ac Aelodau'r Cabinet. Roedd hyn yn cynnwys y llythyr gan y pwyllgor at Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio a'r ymateb. Yn ogystal, darparwyd y llythyr gan y Gweithgor Cadw Coed at Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio a'r ymateb.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 17 ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.

Dim.

## 18 DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Seremoni Genedlaethol Gwobrwyo Cyflawniad y Municipal Journal ar 16 Mehefin 2016 y byddai hi, y Cynghorydd Terry Hennegan a'r Cynghorydd Paxton Hood-Willians yn mynd iddi. Roedd hyn mewn perthynas â'r ffaith y cyrhaeddodd Craffu Abertawe y categori Rhagoriaeth mewn Llywodraethu a Chraffu.

## 19 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH).

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 20 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD NESAF PANELI/GWEITHGORAU.

Rhoddwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Roedd un diwygiad, fel a ganlyn: Cynhelir y Panel Ymchwilio i Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy ar 30 Mehefin 2016.

## 21 CRAFFU CYN PENDERFYNU – RÔL Y PWYLLGOR.

Adroddodd y Cadeirydd ar yr arweiniad ar graffu cyn penderfynu cyn ystyried Adroddiad y Cabinet ar 'Sgwâr y Castell - Datblygu a Chyfleoedd ar gyfer Mannau Cyhoeddus'.

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar rôl y pwyllgor wrth fynd i'r afael â chraffu cyn penderfynu. Gofynnwyd i aelodau ystyried adroddiad a chynigion y Cabinet a chytuno ar unrhyw farn ar y penderfyniad arfaethedig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

## 22 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 14A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 23 CRAFFU CYN PENDERFYNU: SGWÂR Y CASTELL - DATBLYGU A CHYFLEOEDD AR GYFER MANNAU CYHOEDDUS - ADRODDIAD AELOD Y CABINET DROS FENTER, DATBLYGU AC ADFYWIO.

Cyflwynodd y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd (ar ran y Cynghorydd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio), Huw Mowbray, Rheolwr Datblygu Eiddo a Katy Evans, Uwch-syrfëwr Datblygu'r Ddinas, yr adroddiad ar Sgwâr y Castell cyn penderfyniad y Cabinet ar 16 Mehefin 2016.

Roedd yr adroddiad yn ceisio awdurdod i ystyried opsiynau ar gyfer cyfleoedd ailddatblygu yn Sgwâr y Castell.

Roedd gan y pwyllgor y cyfle i holi cwestiynau a mynegi ei farn ar y penderfyniad arfaethedig.

Tynnodd y pwyllgor sylw at nifer o faterion yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylai'r Cynghorydd Holley, ar ran Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu, gyflwyno barn y pwyllgor ar yr adroddiad i gyfarfod y Cabinet ar 16 Mehefin 2016 cyn penderfyniad y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.36 pm

**CADEIRYDD**